	Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd Llawr 1af Swyddfeidd Cyngor Dinas Bangor / 1 st Floor Bangor City Council Offices Bangor Gwynedd. LL57 IDT
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd	☎ (01286) 679890 🌐 www.ynysmon.gov.uk 🌐 www.gwynedd.llyw.cymru	
Mr Hywel Wyn Jones, Arolygydd, Dan ofal y Swyddog Rhaglen swyddogrhaglen@gwynedd.llyw.cymru	Gofynnwch am / Ask for: Nia Davies ☎ (01286) 679890 ✉ niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru Ein Cyf / Our Ref: Eich Cyf / Your Ref: Dyddiad / Date: 31 Mai 2016	
<p>Annwyl Syr</p> <p>Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026 Archwiliad – Nodyn Dechreuol yr Arolygydd i'r Cynghorau – Ymateb y Cynghorau</p> <p>Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 6ed Mai 2016 ynglyn a'r Nodyn a enwir uchod. Diolch am dynnu sylw at faterion 'rydych yn dymuno clywed mwy amdanynt. 'Rwyf yn croesawu'r cyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol er mwyn ceisio osgoi gohirio camau nes ymlaen yn yr Archwiliad. Nodaf ei bod hi'n bosib i chi godi materion eraill cyn y sesiynau gwrandawiaidau.</p> <p>'Rwyf wedi ystyried y materion gyfeiriwch ato a hoffwn ymateb fel a ganlyn:</p>		
<p>I. Asesiad Cynaliadwyedd, Mawrth 2016</p> <p>i. 'Rwyf wedi ymgynghori gydag Enfusion a wnaeth gynorthwyo gyda'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC). Mae Rhan 2 o'r Adroddiad AC Chwefror 2016 (CDLL.007) yn egluro'r dull a ddefnyddir a manylion y dulliau a ddefnyddir ar gyfer pob cam yn y broses a phob elfen o ddatblygu'r CDLI ar y Cyd. Yn ystod y cam Hoff Strategaeth yn 2013, fe gafodd pob polisi ei ystyried yn erbyn y Fframwaith AC cyfan, gan ddarparu matrices asesu ar gyfer pob polisi. Fe wnaeth casgliadau'r AC ar y cam yma oleuo'r gwaith o lunio'r Cynllun ac maent yn cael eu crynhoi yn Rhan 5 o'r Adroddiad AC Chwefror 2016 (CDLL.007) gyda matrices manwl yn cael ei gynnwys yn Atodiad 8. Mae'r dull ar gyfer y cam yma i'w weld ym Mharagraff 2.14 o'r un Adroddiad AC (CDLL.007).</p> <p>ii. Yn ystod y cam CDLI ar y Cyd Adnau yn 2015, fe gafodd asesiad ffres o'r CDLI ar y Cyd Adnau ei gwblhau - gan gynnwys polisiau a safleoedd a ffafriwyd - fel rhan o'r broses AC ailadroddol a chyfredol. Cafodd yr asesiad ei strwythuro o dan 12 pennawd, a oedd yn gysylltiedig â'r Amcanion yn y Fframwaith</p>		

AC yn ogystal â'r meysydd yn y Gyfarwyddeb AAS. 'Roedd hyn yn darparu'r fframwaith a'r strwythur i fesur yr ardrawiadau arwyddocaol tebygol o'r Cynllun Adnau (gan gynnwys polisiau a dynodiadau safle) ar y cam yma yn erbyn y pynciau allweddol. Felly fe gafodd pob polisi yn y CDLI ar y Cyd Adnau ystyriaeth trwy'r AC, ac mae casgliadau'r gwaith yma yn cael eu cyflwyno yn Rhan 6 o'r Adroddiad AC Chwefror 2016 (CDLL.007). Mae'r dull a ddefnyddiwyd adeg y cam CDLI ar y Cyd Adnau i'w weld ym Mharagraffau 2.20 a 2.21 o'r un Adroddiad (CDLL.007) ac fe gafodd ei ddefnyddio am y rhesymau canlynol:

- I osgoi cynhyrchu nifer fawr o fatricsau asesu;
- I osgoi ailadrodd neu ddyblygiad o waith asesu;
- I adnabod effeithiau synergaid a chronnol yn fwy effeithiol a chilir yn ogystal â chydberthynas rhwng pynciau; ac
- I werthuso effeithiau arwyddocaol tebygol o weithredu'r Cynllun cyfan yn fwy effeithiol.

iii. Credir bod y dull yma o weithio yn gyson a'r Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau AAS, sydd yn gofyn am adnabod, ddisgrifio a gwerthuso effeithiau arwyddocaol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr AC o'r CDLI ar y Cyd, gan gynnwys y CDLI ar y Cyd Adnau, yn cwrdd â gofynion y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau AAS ac mae'n gyson a'r canllawiau cyfredol; felly, nid oes angen rhagor o waith AC heblaw am waith yn gysylltiedig â newidiadau pellach i'r Cynllun a fydd eu hangen mewn ymateb i, er enghraifft (i) sylwadau am Newid â Ffocws; (ii) gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud i adnabod safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd asesiad o newidiadau pellach i'r Cynllun yn cael ei gofnodi mewn Atodiad i'r Adroddiad cyfredol.

2. Cyflenwad Tai

Nodir eich sylwadau am Bapur Testun 20 (PT.033). Byddwch yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrth ymateb i Newid â Ffocws perthnasol wedi tynnu sylw i faterion a ddylid rhoi sylw iddynt (sylw wedi cynnwys yn CDLL.026). Nodir y rheini. Fel awgrymwyd yn eich llythyr, mae Papur Testun diwygiedig yn cael ei baratoi er mwyn rhoi gwybodaeth ac eglurhad mwy manwl. Mae'r Rhaglen waith, sydd yn Atodiad I efo'r llythyr yma, yn rhoi'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

3. Tai Fforddiadwy

Mae paragraff 7.4.65b yn y Cynllun Adnau, gan gynnwys Newidiadau a Ffocws, yn cynnwys tabl sy'n cyfeirio at ffynonellau amrywiol i ildio tai fforddiadwy a ddisgwyllir yn ardal y Cynllun. Nodaf eich bod yn dymuno gweld rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y rhesymeg du cefn i ddewis dull 2 lefel. Bydd datganiad byr yn cael ei lunio yn unol â'r amserlen a welir yn Atodiad I. Nodaf hefyd eich bod yn awgrymu y byddai diweddariad o'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn ddefnyddiol. Hoffwn nodi bod Andrew Golland Associates wedi cael ei gomisiynu i wneud y gwaith angenrheidiol. Gweler yr amserlen i gwblhau'r gwaith yn y daenlen rhaglen waith sydd yn Atodiad I.

4. Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

i. Mae Tabl I yn Atodiad 2 o Bapur Testun 18A (PT031) yn nodi bod tri safle wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer i adnabod safle i'w ddynodi fel safle preswyl parhaol yn lle'r un cyfredol sy'n cael ei oddef ger Pentraeth ac sy'n cael ei feddiannu gan Deithwyr ar hyn o bryd. 'Roedd Tabl I hefyd yn adnabod safleoedd a oedd wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer i adnabod 2 safle i gyfarch yr angen am 1 safle aros dros dro ger Caergybi ac 1 arall yng nghanol yr Ynys. Fe gafwyd ymgynghoriad cyhoeddus am y safleoedd ar y rhestr fer rhwng 1 leg Chwefror a'r 1 leg Mawrth 2016. Bydd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried adroddiadau am yr ymgynghori

cyhoeddus ar 31 Mai 2016. Dyma ddolen i'r adroddiad <http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&Mid=3048&Ver=4&LLL=0>

Byddwch yn nodi o'r adroddiad bod swyddogion yn argymhell cynnwys safle ger Penhesgyn, Penmynydd yn y Cynllun i'w ddefnyddio fel safle preswyl parhaol. Ar ôl rhoi ystyriaeth gofalus i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus am y safleoedd posib dros dro mae'r adroddiad yn argymhell nad ydi 'run ohonynt yn briodol i'w hadnabod fel safleoedd aros dros dro yn y Cynllun. Mae'r adroddiad yn dod i gasgliad bod angen rhagor o waith i adnabod safleoedd aros dros dro, gan edrych ar safleoedd ym mherchnogaeth breifat ar yr Ynys. Bydd y gwaith yma yn golygu sgorio'r safleoedd yn erbyn y matrices sgorio, gwneud ymholiadau gyda chyrrff statudol perthnasol a thirfeddianwyr, cyn mynd allan am ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r broses gyfan gydag argymhellion i Aelodau Etholedig erbyn canol Gorffennaf 2016. Mae'r rhaglen waith sydd gyda'r llythyr yma yn cadarnhau pa ddogfennau a allir eu cyhoeddi a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

- ii. Mae'r Cynllun Adnau, gan gynnwys Newid â Ffocws NF 72, yn dynodi tir sydd yn estyniad i safle presennol yn Llandygai a ddefnyddir gan Sipsiwn, i gyfarch y galw cydnabyddedig am leiniau preswyl ychwanegol yng Ngwynedd yn ystod oes y Cynllun. Ers i'r Cynllun gael ei gyflwyno mae trafodaethau manwl wedi digwydd i adnabod safle aros dros dro ar gyfer carafanau sydd angen aros yn ardal Caernarfon. Mae'r rhaglen waith sydd gyda'r llythyr yma yn rhoi'r amserlen ar gyfer cael y penderfyniad terfynol am y mater.

5. Cyflogaeth

Mae'r Cynghorau o'r farn nad oes gorddarpariaeth o dir cyflogaeth yn ardal y Cynllun a bod y dull o weithio yn gyson gyda strategaethau economaidd/ corfforaethol y Cynghorau, yn arbennig hwyluso Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn. Mae polisiau'r Cynllun yn rhoi'r fframwaith i hyrwyddo'r twf economaidd a ragwelir efo'r Rhaglen yma. Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau nad ydi argaeledd tir yn gwahardd amcanion economaidd. Er hynny, er mwyn cyfarch y materion a godwyd gennych a Llywodraeth Cymru (yn ei wrthwynebiad i'r Cynllun Adnau, gan gynnwys Newid â Ffocws), mae'r Cynghorau yn paratoi Papur Testun Tir Cyflogaeth. Mae'r rhaglen waith sydd yng nghlwm yn rhoi'r amserlen i gwblhau'r Papur Testun yma.

6. Ynni Adnewyddol

Hoffwn roi gwybod i chi bod cwmni LUC (mewn ymgynghoriad â Carbon Smart) wedi cael ei benodi i gymhwyso'r fethodoleg a roddir yn "Practice Guidance: Planning for Renewable and Low Carbon Energy - a Toolkit for Planners" gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yma yn canolbwyntio ar ymgymryd ag asesiad strategol o'r adnodd posib ar gyfer ffermydd haul yn ardal y Cynllun. Mae'r Astudiaethau Capasiti Ynni Adnewyddol (DC.012 & DC.013) eisoes wedi ymgymryd ag asesiad strategol o adnodd ffermydd gwynt yn ardal y Cynllun. Bydd lleoliadau posib ar gyfer ffermydd haul a ffermydd gwynt wedyn yn cael eu hasesu yn erbyn cyfyngiadau cydnabyddedig all fod yn berthnasol, e.e. casgliadau'r "Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti'r Tirwedd" (DC.020), cyn dod i gasgliadau. Mae'r rhaglen waith atodol yn rhoi'r amserlen i gwblhau'r Papur Cefndir yma.

7. Dogfennau ychwanegol

Croesewir cyfle i ychwanegu dogfennau i Lyfrgell yr Archwiliad. Mae'r rhaglen waith atodol yn rhoi'r amserlen i ychwanegu copïau dwyieithog o'r dogfennau a ofynnwyd amdano yn eich llythyr. Noder hefyd awgrymir bod angen ychwanegu un arall hefyd er mwyn ymateb i sylw a gafwyd am Newid â Ffocws.

8. Canllawiau Cynllunio Atodol


Mae Atodiad 9 i'r Cynllun Adnau yn rhoi rhestr o'r CCA a ragwelir byddwn eu hangen. Croesewir y cyfle i wella eglurder o ran yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r CCA, yn ogystal â chrynodeb o'u cynnwys. Mae'r rhaglen waith atodol yn rhoi'r amserlen ar gyfer llunio'r papur ychwanegol yma.

9. Monitro

Noder y sylwadau am y fframwaith fonitro sydd wedi ei gynnwys ym Mhennod 8, fel y'i diwygiwyd gan Newidiadau â Ffocws. Mae'r rhaglen waith atodol yn rhoi'r amserlen ar gyfer mireinio'r fframwaith fonitro.

Gobeithio bod yr uchod, y rhaglen waith atodol a'r deunydd ychwanegol rydym yn bwriadu ei ddarparu o gymorth i chi wrth baratoi ar gyfer y Sesiynau Gwrandawiadau. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi trwy'r Swyddog Rhaglen os fyddwch angen eglurhad.

Yn gywir



Nia H Davies
Rheolwr Cynllunio (Polisi)